YSGOL BRYNREFAIL

PÊL DROED CWPAN CYMRU dan 18
Ysgol Brynrefail v. Dinbych

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, a'r eira, diolch fyth, wedi diflannu fe chwaraewyd gêm pêl droed , yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru yn erbyn Ysgol Gyfun Dinbych ar gaeau Llanrug. Cafwyd gêm eithaf cyfartal yn yr hanner cyntaf ond fe sgoriodd Dyfan Coles ar ôl ugain munud ac fe gyrhaeddwyd hanner amser a'r sgôr yn 1-0 i'r tîm cartref.

Ond o ddechrau'r ail hanner fe ddaeth safon chwarae Brynrefail i'r brig. Fe sgoriwyd goliau ychwanegol gan Iwan Price, Gruffydd John 2 (yn cynnwys cic smotyn) a hyd yn oed Siôn Phillips yn sgorio (gôl godidog, a gorau'r gêm medda fo!).
Ac felly ymlaen i'r rownd nesaf a bydd y tîm yn chwarae

Hogia Bryrefs – da de!